# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Hydref 2018

Amser: 09.00 - 10.52

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/5066) yn:

http://senedd.tv/cy/5066

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC |
| Tystion: | Simon Green, Bridgend Coalition for Disabled People<br>Helen Fincham, Bridgend Coalition for Disabled People<br>Rhian Davies, Prif Weithredwr, Anabledd Cymru<br>Anita Davies, RNIB |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Kathryn Thomas (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil McEvoy.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-833 Gwella gwasanaethau rheilffordd i Gas-gwent

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am ragor o fanylion am gynlluniau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â gorsaf Cas-gwent, a pham na ellir cyflawni'r cynnydd arfaethedig yng ngwasanaethau Masnachfraint Cymru a'r Gororau o aros yng Nghas-gwent tan fis Rhagfyr 2022.

### 2.2 P-05-834 Dylai Pob Ysgol Fod yn Ysgol Cyfrwng Cymraeg ac Addysgu Hanes Cymru.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd ar ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynghylch y ddeiseb. Wrth wneud hynny, roedd y Pwyllgor am gael rhagor o wybodaeth hefyd gan y deisebydd am y datganiad a wnaed yn y ddeiseb bod hanes Cymru wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg.

### 2.3 P-05-835 Caniatáu i Yrwyr Tacsi Symud yn Rhydd i wneud Gwaith Hurio Preifat Unrhyw Le yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i:

- grwpio'r ddeiseb hon gyda deiseb P-05-775 Caewch y bwlch sy'n ymwneud â gweithio trawsffiniol ac is-gontractio yn y gyfraith trwyddedu tacsis, a'u hystyried gyda'i gilydd yn y dyfodol; ac
- aros i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddiwygio trwyddedu cerbydau hurio preifat a thacsis yng Nghymru gael ei gyhoeddi, cyn ystyried camau pellach ar y ddeiseb.

### 2.4 P-05-836 Adroddiadau ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhyweddau

Datganodd Mike Hedges y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd ar yr ymateb a gafwyd gan Arweinydd y Tŷ cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 2.5 P-05-837 Ynni Gwyrdd er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i

ysgrifennu at y deisebwyr:

- i esbonio mai ychydig iawn o graffu ymarferol y gall y Pwyllgor ei wneud ar yr agwedd gorsaf bŵer niwclear Wylfa Newydd, gan mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y datblygiad hwn; a
- gofyn a hoffent gynnig unrhyw sylwadau ychwanegol ar y prif bwyntiau a godwyd yn y ddeiseb sy'n ymwneud â sut y gellid gwella neu gynyddu'r gefnogaeth a'r buddsoddiad mewn technolegau adnewyddadwy a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

### 2.6 P-05-838 Cefnogwch y Llwybr Du o ran Ffordd Liniaru'r M4

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chadw llygad ar y ddeiseb yng ngoleuni'r gwaith craffu cynhwysfawr a roddwyd i'r mater hwn gan yr ymchwiliad cyhoeddus ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal dadl lawn ar y mater hwn cyn gwneud penderfyniad.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-775 Caewch y bwlch sy'n ymwneud â gweithio trawsffiniol ac is-gontractio yn y gyfraith trwyddedu tacsis

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i:

- grwpio'r ddeiseb hon gyda deiseb P-05-835 Caniatáu i Yrwyr Tacsi Symud yn Rhydd i wneud Gwaith Hurio Preifat Unrhyw Le yng Nghymru a'u hystyried gyda'i gilydd yn y dyfodol; ac
- aros i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddiwygio trwyddedu cerbydau hurio preifat a thacsis yng Nghymru gael ei gyhoeddi, cyn ystyried camau pellach ar y ddeiseb.

### 3.2 P-05-736 Gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Mind Cymru a'r deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn nifer o gwestiynau yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law, gan gynnwys:

- disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag argaeledd gwasanaethau argyfwng ledled Cymru sydd ar gael bob awr o bob dydd;
- data ar ba mor hir y mae cleifion yn aros am fynediad at therapïau seicolegol ar hyn o bryd; a
- pryd y caiff adroddiad ar gynnydd o dan y cynllun cyflawni: Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, ei gyhoeddi.

### 3.3 P-05-791 Diddymu contractau parcio preifat yn ysbytai Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yng ngoleuni'r ffaith y gellir parcio am ddim ym mhob ysbyty GIG yng Nghymru ers 1 Hydref 2018.

### 3.17 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r deisebydd, a chytunodd i:

- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei ymateb i'r cynnig a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig i Lywodraeth Cymru weithredu trefniant dros dro i alluogi cleifion yng Nghymru i gael gafael ar Orkambi, a'r defnydd posibl o Gofrestr CF y DU;

- ysgrifennu at Vertex Pharmaceuticals i ofyn iddynt roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad unrhyw gyfarfod â Grŵp Strategaeth Meddygaeth Cymru Gyfan; ac
- archwilio ffynonellau cyngor neu arbenigedd pellach a allai gefnogi'r Pwyllgor i ystyried y ddeiseb hon ymhellach.

### 3.5 P-05-812 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog ymddiriedolaethau i weithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol neu gyfiawnhau pam nad ydynt yn gwneud hynny

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan fyrddau iechyd lleol a'r deisebydd a chytunodd i:

- fynd ar drywydd ymateb nad oedd wedi ei gael gan un bwrdd iechyd; a
- gofyn i Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad am ddadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law a chymhariaeth â chynnwys canllawiau NICE.

### 3.6 P-05-799 Newid y Cwricwlwm Cenedlaethol a dysgu hanes Cymru, a hynny o bersbectif Cymreig, yn ein Hysgolion Cynradd, Uwchradd a'r Chweched Dosbarth

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i:

- ofyn am restr o'r ysgolion arloesi sy'n gweithio'n benodol ar elfen hanes y cwricwlwm newydd, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gael rhagor o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud; a
- gofyn am ei barn ar sut y gallai'r cwricwlwm newydd sicrhau cydbwysedd priodol rhwng rhoi disgresiwn i ysgolion ac athrawon ar gynnwys gwersi, a sicrhau bod disgyblion yng Nghymru yn cael eu haddysgu am hanes cenedlaethol a lleol.

### 3.7 P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r deisebydd a chytunodd i drefnu i gymryd tystiolaeth lafar gan y grŵp ymgyrchu a Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn.

### 3.8 P-05-790 Mynd i'r afael â chysgu ar y stryd

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i gau'r ddeiseb yng ngoleuni boddhad y deisebydd gyda'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i gysgu allan.

### 3.9 P-05-758 Cerflun i Anrhydeddu Billy Boston

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yng ngoleuni'r ffaith na dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad gan y deisebwyr am 12 mis, a'r tebygolrwydd nad oes llawer o waith craffu ymarferol y gall y Pwyllgor ei wneud i'r mater hwn. Wrth wneud hynny, dymunodd y Pwyllgor lwc i'r deisebwyr gyda'r prosiect hwn.

### 3.10 P-05-742 Peidiwch â gadael i Forsythia gau

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yng ngoleuni'r ffaith nad yw'n ymddangos yn bosibl bellach i symud y ddeiseb hon ymlaen oherwydd y diffyg cysylltiad gan y deisebwyr ac effaith diwedd cyllid Cymunedau'n Gyntaf.

## 4 Sesiwn Dystiolaeth P-05-806 Rydym yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Simon Green, Helen Fincham, Rhian Davies ac Anita Davies.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 6

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafodaeth am Sesiwn Dystiolaeth Flaenorol - P-05-806 Rydym yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd.

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd a chytunodd i ysgrifennu at:

- Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip i roi gwybodaeth am y materion a glywyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth a gofyn a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno cynllun o'r fath. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i fynegi pryderon ynghylch y dystiolaeth a gafwyd nad yw'r darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 wedi cael fawr o effaith ar wella hygyrchedd adeiladau ar gyfer pobl ag anableddau; a'r
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i fynegi pryderon ynghylch y dystiolaeth a gafwyd mai ychydig iawn o effaith o ran gwella hygyrchedd adeiladau y mae'r darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei chael ar gyfer pobl ag anableddau, ac nad yw gofynion y Ddeddf yn cael eu gorfodi'n briodol.